# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-14-08 (p1): 6 Tachwedd 2008

### Ymgyrch Cyflog Cyfartal

### Pwrpas

Rhoi diweddariad ynglyn â'r cynnydd sy'n cael ei wneud ynglyn â'r ymgyrch cyflog cyfartal.

### Cefndir

Mae Deddf Cyflog Cyfartal 1970 yn rhoi hawl i unigolyn i'r un cyflog a manteision cytundebol â rhywun o'r rhyw arall yn yr un gwaith, lle mae'r dyn a'r ddynes yn gwneud gwaith tebyg.  Tybir bod gwaith o werth cyfartal neu gyfwerth yn dilyn astudiaeth ddadansoddol yn ymwneud â gwerthuso swyddi.  Ychwanegodd y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol bwysau i'r angen i gyrff statudol ymdrin â phwnc dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched.

Yn 2007, roedd enillion cyfartalog yr awr i ferched amser llawn yng Nghymru 10 y cant yn is na'r cyfartaledd ar gyfer dynion amser llawn, (y bwlch yn y Deyrnas Unedig oedd 17 y cant).  Mae'r bwlch yng Nghymru wedi lleihau yn ystod blynyddoedd diweddar, o oddeutu 15 y cant ym 1999.  Mewn perthynas ag enillion i ferched oedd yn gweithio'n rhan amser, roedd cyfradd gyfartalog yr awr yn 2007 9 y cant yn is na'r cyfartaledd ar gyfer dynion rhan amser.  (Cafwyd y ffigurau i gyd o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion).

Roedd yr ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog' yn bartneriaeth a arweiniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chefnogaeth y Comisiwn Cyfle Cyfartal, sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bellach, a TUC Cymru.

Yn Awst 2007, cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso yn ystyried y cam diweddaraf hwn o'r ymgyrch a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.  Ystyriodd awduron yr adroddiad, Fitzgerald Associates, amcanion y cam hwn o'r ymgyrch, y gweithgareddau a wnaed a thystiolaeth o gyflawniad.  O'r gwersi a ddysgwyd, gwnaed cyfres o argymhellion ynghylch sut y gallai gwaith pellach gael ei wneud i gwtogi ar anghyfartaledd cyflog rhwng dynion a merched yng Nghymru gyda'r bwriad o'i ddileu.

Adolygwyd yr argymhellion hyn gan y pwyllgor ym mis Ebrill eleni.

**Camau nesaf**

Ym mis Ebrill, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymrwymiad i barhau i gefnogi TUC Cymru ynghyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yng Nghymru i ddatblygu'r ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog'.

danlinellu'r ymrwymiad hwn, ysgrifennais at Trevor Phillips, Cadeirydd CCHD yn mynegi ein barn y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu i'r mater hwn gael ei ystyried fel un i'w gynnwys yn y cynllun strategol fel blaenoriaeth i'r Comisiwn.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chynrychiolwyr o TUC Cymru a'r CCHD yng Nghymru yn ystod yr haf i ddatblygu elfennau o'r ymgyrch a gytunwyd mewn egwyddor yn flaenorol fel camau nesaf i symud yr ymgyrch ar y cyd yn ei blaen.

**Hyrwyddo'r fantais i fusnes**

Mae prosiect i fesur manteision setlo cyflog cyfartal yn cael ei ddatblygu, o dan arweiniad CCHD yng Nghymru a chyda chefnogaeth TUC Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Seilir yr astudiaeth achos ar gyngor lleol yng Nghymru lle mae materion ynglyn â chyflog cyfartal wedi eu setlo.  Pwrpas yr astudiaeth achos hon fydd dangos y manteision a all ddod yn sgîl gweithredu cyflog cyfartal, nid yn unig i'r sefydliad ond i'r gymuned ehangach.  Bydd hyn yn helpu i ddylanwadu ar awdurdodau cyhoeddus eraill i newid yn gyflymach.

**Digwyddiad yn ymwneud â chyflog cyfartal**

Trefnir cynhadledd cyflog cyfartal yn canolbwyntio yn benodol, ond nid yn gyfan gwbl, ar lunwyr penderfyniadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer Mawrth 2009 i gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2009.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymgysylltu rhai sy'n llunio penderfyniadau gydag undebau llafur ac arbenigwyr ynghylch cyflog cyfartal.  Bydd yn rhoi cyfle hefyd i drafod effaith datblygiadau cyfreithiol diweddar a rhannu rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd o'r tu allan i Gymru.

**Digwyddiadau i gyflogwyr ac undebau llafur**

Cyfres o ddigwyddiadau i gyflogwyr ac undebau llafur yn canolbwyntio ar ymarferwyr adnoddau dynol, ymarferwyr cydraddoldeb a rhai sy'n gyfrifol am drafod o fewn undebau llafur.  Bydd y digwyddiadau hyn o fudd i'r rhai hynny sydd eisoes yn ymwneud â materion cyflog cyfartal ond sy'n dymuno diweddaru eu gwybodaeth.

Pwrpas y digwyddiadau fyddai ymdrin â dwy agwedd ar gyflog cyfartal:

Yn gyntaf, cynyddu gwybodaeth am y risgiau sy'n ymwneud â gwerth cyfartal sy'n gysylltiedig â'r broses o werthuso swyddi ac arferion cyflog cyfredol.  Mae'r CCHD yn paratoi canllawiau i gyflogwyr ac undebau llafur a bydd hyn yn cynnwys goblygiadau'r achosion cyfreithiol diweddaraf.

Yn ail, trafod swyddogaeth cynrychiolwyr cydraddoldeb yr undebau llafur.

Mae TUC Cymru wedi argymell tri neu bedwar o ddigwyddiadau i'w lleoli yn ddaearyddol i'w cyflwyno ym misoedd cynnar 2009.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Cafodd cefnogaeth drawsbleidiol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystod y ddau Gynulliad Cenedlaethol cyntaf ei gydnabod a'i ddyfynnu yn yr adroddiad gwerthuso a gyhoeddwyd yn Hydref 2007 fel un o'r ffactorau allweddol yn llwyddiant yr ymgyrch.

Mae cynnal cefnogaeth drawsbleidiol a chefnogaeth CCHD a'r TUC yng Nghymru yn bwysig. Mae'n bwysig sylweddoli hefyd mai'r rhanddeiliaid hyn sydd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith o hyrwyddo rhinweddau mabwysiadu polisi cyflog cyfartal effeithiol. Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) hefyd ran allweddol. Maent yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o hyrwyddo'r mater hwn ar draws llywodraeth leol ac rwy'n awyddus iddynt gymryd rhan weithredol yn y gwaith hwn wrth iddo ddatblygu.

**Y Mesur Cydraddoldeb**

Rhoddir sylw i gyflog cyfartal yn y Mesur Cydraddoldeb a gyhoeddwyd ar 26 Mehefin yn y Senedd gan Harriet Harman AS a bydd yn fuan yn symud drwy'r weithdrefn seneddol. Denodd y cyhoeddiad ddiddordeb yn y cyfryngau a bydd treigl y mesur drwy'r Senedd yn gwneud llawer i hyrwyddo manteision cyflog cyfartal cyn i'r ddeddf ddod i rym.

Yn dilyn ein trafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â'r darpariaethau Cymreig i'w cynnwys yn y Mesur Cydraddoldeb, mae gennym gytundeb bras i Weinidogion Cymru gael grymoedd cyfwerth i rai Gweinidogion yr Alban. Golyga hyn i awdurdodau cyhoeddus Cymru a swyddogaethau Cymreig awdurdodau trawsffiniol, y byddwn yn gallu gosod ein dyletswyddau penodol ein hunain. Byddwn yn ymgynghori maes o law ynglyn â beth a ddylai'r rhain fod.

**Dr Brian Gibbons AC**

**Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**